| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 2 |

# TAG UG/UWCH

S24-2305N20-1

2305N20-1

**DYDD GWENER, 17 MAI 2024 – PRYNHAWN**

# MATHEMATEG BELLACH – UG uned 2
## YSTADEGAETH BELLACH A

1 awr 30 munud

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **1** | **14** | |
| **2** | **13** | |
| **3** | **12** | |
| **4** | **12** | |
| **5** | **12** | |
| **6** | **7** | |
| **Cyfanswm** | **70** | |

2305N201
01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:
- Llyfryn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell;
- tablau ystadegol (Cyhoeddiadau RND/CBAC).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

70 yw'r marc uchaf ar gyfer y papur hwn.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Rhaid dangos gwaith cyfrifo digonol er mwyn egluro'r dull **mathemategol** sy'n cael ei ddefnyddio.

Mae'n bosibl na fydd atebion heb waith cyfrifo yn derbyn marciau llawn.

Os nad yw'r lefel o fanwl gywirdeb yn cael ei nodi yn y cwestiwn, dylech chi dalgrynnu atebion yn briodol.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

JUN242305N20101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Nodyn atgoffa:** Rhaid dangos gwaith cyfrifo digonol er mwyn egluro'r dull **mathemategol** sy'n cael ei ddefnyddio.

**1.** Mae Dave a Llinos yn hoffi mynd i bysgota. Pan maen nhw'n mynd i bysgota, ar gyfartaledd, mae Dave yn dal 4.3 pysgodyn bob dydd ac mae Llinos yn dal 3.8 pysgodyn bob dydd. Gallwch chi dybio (*assume*) bod diwrnod o bysgota'n para 8 awr.

(a) (i) Cyfrifwch y tebygolrwydd y byddan nhw'n dal cyfanswm o lai na 2 bysgodyn mewn hanner diwrnod o bysgota sydd wedi'i hapddewis. [4]

(ii) Cyfiawnhewch (*justify*) unrhyw ddosraniad rydych chi wedi'i ddefnyddio wrth ateb (a)(i). [1]

Arholwr yn unig

(b) Ar ddiwrnod sydd wedi'i hapddewis, mae Dave yn dechrau pysgota am 7 am. O wybod nad yw Dave wedi dal pysgodyn erbyn 11 am,

(i) darganfyddwch yr amser disgwyliedig pan fydd yn dal ei bysgodyn cyntaf,

(ii) cyfrifwch y tebygolrwydd na fydd yn dal pysgodyn erbyn 3 pm. [4]

2305N201 03


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Ar gyfartaledd, dim ond 2% o'r pysgod mae Llinos yn eu dal sy'n frithyll (*trout*). Mewn blwyddyn gyfan, mae hi'n dal 950 o bysgod. Cyfrifwch y tebygolrwydd bod o leiaf 30 o'r pysgod hyn yn frithyll. [3]

(ch) Nodwch ddosraniad, gan roi rheswm, a gan gynnwys unrhyw baramedrau, allai frasamcanu'r dosraniad gwnaethoch chi ei ddefnyddio yn rhan (c). [2]


© WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**

2305N201 05



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**2.** Mae Emlyn yn ceisio cynhyrchu penodau o bodlediadau (*podcast episodes*) sydd â hyd amser safonol, ac mae'n galw hwn yn 'amser targed'. Mae'r amser, $X$ munud, uwchben neu o dan yr amser targed, mae'n ei alw'n 'amser sy'n cael ei ganiatáu', yn gallu cael ei fodelu gan y ffwythiant dosraniad cronnus canlynol.

$$F(x)=\begin{cases}0 & x<-2\\ \dfrac{x+2}{5} & -2\leqslant x<1\\ \dfrac{x^2-x+3}{5} & 1\leqslant x\leqslant 2\\ 1 & x>2\end{cases}$$

(a) Cyfrifwch chwartel uchaf yr 'amser sy'n cael ei ganiatáu'. [5]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Darganfyddwch $f(x)$, y ffwythiant dwysedd tebygolrwydd, ar gyfer holl werthoedd $x$. [4]



2305N201 07

Arholwr yn unig

(c) (i) Cyfrifwch yr 'amser sy'n cael ei ganiatáu' cymedrig. [3]

(ii) Dehonglwch (*interpret*) eich ateb mewn cyd-destun. [1]

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON

2305N201
09

**3.** Mae cwmni'n gwneud bagiau. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bagiau sy'n cael eu gwerthu ar hapsampl o 50 diwrnod. Mae rheolwr yn credu ei fod yn bosibl modelu nifer y bagiau sy'n cael eu gwerthu bob dydd â dosraniad Poisson â chymedr 2.2.

| **Nifer y bagiau sy'n cael eu gwerthu** | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 neu fwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amlder** | 7 | 10 | 11 | 9 | 6 | 7 |

(a) Cynhaliwch brawf llwyddiant y ffit chi sgwâr, gan ddefnyddio lefel 10% o arwyddocâd. [11]



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Mae prawf llwyddiant y ffit chi sgwâr ar gyfer y dosraniad Poisson â chymedr 2·5 yn cael ei gynnal. Mae hwn yn defnyddio yr un nifer o raddau o ryddid â rhan (a) ac mae'n rhoi'r ystadegyn prawf 1·53. Nodwch, gan roi rheswm, pa un o'r ddau fodel Poisson hyn yw'r ffit orau ar gyfer y data. [1]



© WJEC CBAC Cyf.

**4.** Mae awdur yn gofyn y cwestiwn canlynol:

Ydy defnyddio arian parod ar gyfer trafodion (*transactions*) yn effeithio ar ymddygiad ariannol pobl?


Mae hi'n casglu data am 'Trafodion arian parod fel % o'r holl drafodion' a 'Dyled cartref fel % o incwm gwario net' o hapsampl o 25 gwlad. Mae'r tabl isod yn dangos y data mae hi wedi'u casglu. Mae yna werthoedd coll, $p$ ar gyfer Malta, a $q$ ar gyfer Denmarc.

| Gwlad | Trafodion arian parod fel % o'r holl drafodion $x$ | Dyled cartref fel % o incwm gwario net $y$ | Gwlad | Trafodion arian parod fel % o'r holl drafodion $x$ | Dyled cartref fel % o incwm gwario net $y$ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Malta** | 92 | $p$ | **Ffrainc** | 68 | 120 |
| **México** | 90 | –14 | **Luxembourg** | 64 | 177 |
| **Gwlad Groeg** | 88 | 107 | **Gwlad Belg** | 63 | 113 |
| **Sbaen** | 87 | 110 | **Y Ffindir** | 54 | 137 |
| **Yr Eidal** | 86 | 87 | **Estonia** | 48 | 82 |
| **Awstria** | 85 | 91 | **Yr Iseldiroedd** | 45 | 247 |
| **Portiwgal** | 81 | 131 | **Y DU** | 42 | 147 |
| **Slovenija** | 80 | 56 | **Awstralia** | 37 | 214 |
| **Yr Almaen** | 80 | 95 | **UDA** | 32 | 109 |
| **Iwerddon** | 79 | 154 | **Sweden** | 20 | 187 |
| **Slofacia** | 78 | 74 | **De Korea** | 14 | 182 |
| **Lithuania** | 75 | 46 | **Denmarc** | $q$ | 261 |
| **Latvia** | 71 | 43 | | | |


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

Mae'r crynodeb o ystadegau a'r diagram gwasgariad isod ar gyfer y 23 gwlad arall.




$\sum x = 1467 \quad \sum y = 2695 \quad \sum x^2 = 105073 \quad S_{xx} = 11503 \cdot 91304 \quad S_{yy} = 78669 \cdot 30435$

$\sum y^2 = 394453 \quad \sum xy = 152999 \quad S_{xy} = -18895 \cdot 13043$

(a) Gan ddefnyddio'r crynodeb o ystadegau ar gyfer y 23 gwlad, cyfrifwch a dehonglwch gyfernod cydberthyniad moment lluoswm Pearson. [3]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

Arholwr yn unig

(b) Cyfrifwch hafaliad llinell atchwel sgwariau lleiaf Dyled cartref fel % o incwm gwario net ($y$) ar Trafodion arian parod fel % o'r holl drafodion ($x$). [5]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

Mae'r llinell atchwel $x$ ar $y$ wedi'i rhoi isod.

$$x = -0 \cdot 24y + 91 \cdot 92$$

(c) Drwy ddewis y llinell atchwel briodol ym mhob achos, amcangyfrifwch werthoedd $p$ a $q$ yn y tabl. [2]

(ch) Gwnewch sylw am ddibynadwyedd eich atebion yn rhan (c). [1]

(d) Dehonglwch werth negatif $y$ ar gyfer México. [1]

**5.** Mae gan Lily ddiddordeb yn y berthynas rhwng y ffordd mae disgyblion wedi dysgu Cymraeg a'u hagwedd tuag at yr iaith Gymraeg.

Mae hi'n categoreiddio'r disgyblion fel rhai sydd wedi dysgu Cymraeg mewn un o dair ffordd:

- wedi dysgu gan un rhiant/gofalwr sy'n siarad Cymraeg gartref,
- wedi dysgu gan ddau riant/gofalwr sy'n siarad Cymraeg gartref,
- wedi dysgu yn yr ysgol yn unig, ar gyfer rhai heb rieni/gofalwyr sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae hi'n gofyn i'r disgyblion ddisgrifio eu hagwedd tuag at yr iaith Gymraeg ar raddfa o 'Negyddol iawn' i 'Positif iawn'.

Mae hi'n casglu'r data canlynol o hapsampl o 253 disgybl fel rhan o broject.

| | **Wedi dysgu Cymraeg** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Gan ddau riant/gofalwr** | **Gan un rhiant/gofalwr** | **Yn yr ysgol yn unig** | **Cyfanswm** |
| **Negyddol iawn** | 2 | 14 | 30 | **46** |
| **Gweddol negyddol** | 4 | 20 | 21 | **45** |
| **Niwtral** | 12 | 17 | 8 | **37** |
| **Gweddol bositif** | 21 | 19 | 11 | **51** |
| **Positif iawn** | 25 | 21 | 28 | **74** |
| **Cyfanswm** | **64** | **91** | **98** | **253** |

Mae Lily yn bwriadu cynnal prawf chi sgwâr ar gyfer annibyniaeth ar y lefel 5%. Mae hi'n cynhyrchu'r tablau canlynol, sy'n anghyflawn (*incomplete*).

| **Amlderau Disgwyliedig** | **Wedi dysgu Cymraeg** | | |
|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Gan ddau riant/gofalwr** | **Gan un rhiant/gofalwr** | **Yn yr ysgol yn unig** |
| **Negyddol iawn** | 11·64 | 16·55 | 17·82 |
| **Gweddol negyddol** | 11·38 | 16·19 | 17·43 |
| **Niwtral** | 9·36 | 13·31 | 14·33 |
| **Gweddol bositif** | 12·90 | 18·34 | 19·75 |
| **Positif iawn** | $F$ | 26·62 | 28·66 |



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

| Cyfraniadau Chi Sgwâr | Wedi dysgu Cymraeg | | |
|---|---|---|---|
| **Agwedd** | **Gan ddau riant/gofalwr** | **Gan un rhiant/gofalwr** | **Yn yr ysgol yn unig** |
| **Negyddol iawn** | 7·98 | 0·39 | 8·33 |
| **Gweddol negyddol** | 4·79 | 0·90 | 0·73 |
| **Niwtral** | 0·74 | 1·02 | $G$ |
| **Gweddol bositif** | 5·08 | 0·02 | 3·88 |
| **Positif iawn** | 2·11 | 1·19 | 0·02 |
| **Cyfanswm** | 20·70 | 3·52 | $H$ |

(a) Cyfrifwch werthoedd $F$, $G$ a $H$. [4]

Arholwr yn unig

(b) Cynhaliwch brawf chi sgwâr Lily ar gyfer annibyniaeth ar y lefel 5%. [6]



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

(c) Drwy gyfeirio at y ffigurau yn y tablau ar dudalennau 16 ac 17, rhowch ddau sylw am y berthynas rhwng y ffordd mae disgyblion wedi dysgu Cymraeg a'u hagwedd tuag at yr iaith Gymraeg. [2]

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**6.** Mae Penelope yn gwneud 8 teisen yr wythnos. Mae pob teisen yn costio £20 i'w gwneud ac yn gwerthu am £60. Mae hi bob amser yn gwerthu o leiaf 5 teisen yr wythnos. Mae unrhyw deisennau sydd ar ôl ar ddiwedd yr wythnos yn cael eu rhoi i fanc bwyd. Y tebygolrwydd o werthu 5 teisen mewn wythnos yw 0·3. Mae hi ddwywaith mor debygol o werthu 6 teisen mewn wythnos na gwerthu 7 teisen mewn wythnos. Yr elw disgwyliedig bob wythnos yw £206.

Lluniwch ddosraniad tebygolrwydd ar gyfer yr elw wythnosol. [7]


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

(2305N20-1)

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**



© WJEC CBAC Cyf.